“Roedd y barnwr yn deg, eglurodd bethau'n dda iawn. Gadewais yno'n meddwl 'dyna sut y dylid ei wneud.' Eglurodd y broses newydd, gwrandawodd ar yr hyn oedd gennyf i'w ddweud, ac roedd e'n wych” (Mam, Gogledd Cymru).

Swyddog Cynnydd Achos a Staff GLITEF

Er na chyfeiriodd unrhyw gyfranogwr at y Swyddog Cynnydd Achos, sef swydd newydd yn y Cynllun Braenaru sy'n darparu un pwynt cyswllt i'r partïon, teimlai rhieni o'r ddau safle eu bod wedi'u hysbysu'n dda yn gynnar, diolch i daflen wybodaeth gyffredinol a eglurodd y broses ac a gynigiodd gymorth pellach drwy linell gymorth. Fodd bynnag, er eu bod yn gweld y deunydd hwn yn ddefnyddiol, roedd rhai rhieni'n dal yn ansicr ynghylch beth i'w ddisgwyl o'r broses llys yn gyffredinol.

4.2 Lleihau Ail-drawmateiddio Goroeswyr Cam-drin Domestig

Mae'r Cynllun Braenaru yn anelu at leihau ail-drawmateiddio goroeswyr cam-drin domestig a all

¹⁵ Defnyddir y term 'barnwyr' i gyfeirio at ynadon a barnwyr.

ddigwydd yn ystod achosion teuluol. Adroddodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr fod cam-drin domestig yn ffactor yn eu hachos, gyda honiadau'n cael eu gwneud gan y cyfranogwr, y ddau barti, neu'r parti arall. Er bod gan bob plentyn gafodd eu cyfweld honiadau o gam-drin domestig yn eu hachos, dim ond un a gyfeiriodd ato'n benodol.

Gwerthfawrogodd y rhan fwyaf o rieni gyda cham-drin domestig yn eu hachos osgoi cyfryngu, yr atgyfeiriadau i wasanaethau cam-drin domestig, a chael cynnig asesiadau risg DASH a/neu fesurau arbennig, er na ddigwyddodd hyn ym mhob achos. Cododd llawer o rieni bryderon am eu rhyngweithio â FCAs Cafcass/Cafcass Cymru, awdurdodau lleol, a barnwyr, gan deimlo bod eu profiadau'n aml wedi'u tanseilio neu'u hanwybyddu. Nodwyd nad oedd gweithwyr proffesiynol yn dangos dealltwriaeth o gam-drin domestig a dulliau ystyriol o drawma drwy gydol y broses. Er bod rhywfaint o gynnydd tuag at y nod hwn, roedd meysydd sylweddol i'w gwella ymhellach.

Cyfryngu mewn achosion sy'n cynnwys cam-drin domestig

Mae unigolion sydd wedi profi cam-drin domestig wedi'u heithrio rhag mynychu Cyfarfod Gwybodaeth ac Asesiad Cyfryngu (MIAM). Adroddodd y rhan fwyaf o famau a oedd wedi bod drwy CAP eu bod wedi cael cynnig cyfryngu yn ystod achosion CAP blaenorol, er gwaethaf honiadau o gam-drin domestig. Nid oedd unrhyw famau a oedd wedi profi cam-drin domestig yn teimlo y byddai cyfryngu wedi bod o fudd iddynt. O dan y Cynllun Braenaru, nid oedd y rhan fwyaf o rieni yr oedd eu hachos yn cynnwys cam-drin domestig wedi cael cynnig cyfryngu. Nododd rhai tadau y byddent wedi hoffi mynd i gyfryngu ond, gan fod eu cyn-bartneriaid wedi gwrthod, nid oedd hyn yn bosibl. Dechreuodd ychydig o famau gyfryngu heb wybod eu bod wedi'u heithrio, gan ddysgu am eu heithriad yn ddiweddarach gan asiantaethau cam-drin domestig.

Rhyngweithio â Cafcass/Cafcass Cymru ac awdurdodau lleol

Adroddodd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yr oedd eu hachos yn cynnwys cam-drin domestig eu bod wedi rhyngweithio â Cafcass neu Cafcass Cymru, yn hytrach nag awdurdodau lleol. Teimlai rhai mamau a thadau yr oedd cam-drin domestig yn eu hachos nad oedd Cafcass/Cafcass Cymru yn cymryd eu honiadau o gam-drin domestig o ddifrif. Teimlai mamau ar draws y ddau safle Cynllun Braenaru nad oedd FCAs yn gwrandao arnynt nac yn eu credu:

“[Roedd swyddog Cafcass Cymru] yn mynd ymlaen i, a oedd yn brifo’n fawr...holi dilysrwydd fy honiadau, sef honiadau difrifol o gam-drin domestig a thrais rhywiol” (Mam, Gogledd Cymru).

Er bod profiadau’n amrywio, nododd ychydig o famau, er eu bod wedi datgelu cam-drin domestig i Cafcass/Cafcass Cymru, nad oedd wedi’i grybwyll yn yr Adroddiad Effaith ar Blentyn:

“Dywedodd fy nghyn-bartner, ‘nid oedd cam-drin domestig, mae hi’n ei wneud i fyny.’ Ac roedd [FCA] wedi cymryd ei air a heb hyd yn oed grybwyll hynny yn [yr Adroddiad Effaith ar Blentyn]...Yn amlwg, ceisiais ddweud nad oeddwn yn hapus, ond ni wnaed dim, ni chlywais ganddi eto.” (Mam, Dorset).

Roedd hefyd adlewyrchiadau cadarnhaol. Er enghraifft, adroddodd un fam fod Cafcass Cymru wedi casglu ei phrofiad o gam-drin domestig yn gywir yn yr adroddiad.

Teimlai rhai tadau nad oedd eu honiadau o gam-drin domestig wedi’u cymryd mor ddifrifol gan Cafcass, Cafcass Cymru neu awdurdodau lleol ag y credent y byddent wedi bod pe bai wedi’u gwneud gan fenyw. Fodd bynnag, roedd profiadau tadau’n amrywio.

Dim ond un plentyn wnaeth gael ei gyfweld a siaradodd am y cam-drin domestig yn ei deulu. Teimlai hefyd nad oedd yr awdurdod lleol a oedd yn rhan o’i achos llys wedi credu ei honiadau o fod yn ddioddefwr cam-drin domestig:

“Roeddwn i’n sicr wedi cael fy nhorri i ffwrdd, ac roedd [gweithiwr cymdeithasol awdurdod lleol] yn newid y pwnc. Roedd bob amser yn teimlo fel eu bod yn amddiffyn fy mam. Bob tro y dywedais rywbeth drwg amdani, byddai’n cael ei dorri i ffwrdd” (Plentyn, Gogledd Cymru).

Rhyngweithio gyda barnwyr

Roedd cyfranogwyr hefyd wedi rhannu eu rhyngweithio gyda’r barnwyr oedd yn llywyddu eu hachosion. Roedd ambell fam yn cofio’r barnwr yn delio gyda materion cam-drin domestig yn gadarnhaol, yn arbennig drwy gredu a dilysu eu profiadau. Roedd y mamau hyn yn teimlo bod hyn yn rymusol, er enghraifft:

“Roeddwn yn teimlo fel mod i’n cael cefnogaeth lawn y barnwr. Roedd [y barnwr] wedi gweld popeth ac oeddwn i’n teimlo eu bod yn deall. Oeddwn i’n poeni i ddechrau gan ei fod ef [cyn-bartner] yn ystrywgar iawn, ond nid oedd y barnwr yn derbyn dim o hyn. Wnaeth [y barnwr] weld pwy oedd fy nghyn-bartner yn syth ac roedd yn fy nghefnogi’n llwyr, felly oeddwn i’n meddwl bod hynny’n wych” (Mam, Gogledd Cymru).

Ar draws y ddau safle, roedd y rhan fwyaf o famau a thadau yn adrodd am ryngweithio negyddol, gyda barnwyr mewn achosion yn cynnwys cam-drin domestig. Roedd rhai mamau, yn arbennig, yn teimlo bod barnwyr yn delio gyda cham-drin domestig yn ansensitif:

“Dywedais wrth y barnwr, ‘Edrychwch, dw i’n ei chael hi’n anodd iawn, iawn cyd-rianta gydag ef oherwydd cam-drin domestig.’ Ac fe ddywedodd y barnwr wrthyf yn llythrennol, ‘Mae’n rhaid i chi gyd-rianta, fel arall byddwch chi ill dau yn colli [plentyn]. Ac mae angen i chi ill dau yn y bôn anghofio beth ddigwyddodd rhyngoch chi a symud ymlaen’” (Mam, Dorset).

Adroddodd rhai mamau bod gan farnwyr ddiffyg dealltwriaeth ystyriol o drawma o gam-drin domestig. Er enghraifft, gofynnodd cyfreithiwr un fam am i ymddygiad stelcio ac aflonyddu ei chyn-bartner, a aseswyd fel ‘uchel’ gan DASH, gael ei ystyried wrth wneud trefniadau cyswllt. Fodd bynnag, teimlai nad oedd hyn wedi’i gydnabod:

“Dywedodd y barnwr, mae’r ffaith bod [tad] wedi bod yn gamdriniol hefo fi, nid yw’n golygu y byddai’n gamdriniol gyda’m plentyn, sy’n eithaf anodd i’w glywed pan mae’n berson hynod gamdriniol” (Mam, Gogledd Cymru).

Cododd rhai mamau bryderon am sylwadau a wnaed gan farnwyr a oedd yn lleihau difrifoldeb y cam-drin domestig a wynebwyd gan famau ac yn tanseilio effaith y cam-drin ar blant, yn enwedig y rhai a oedd wedi bod yn dyst iddo. Teimlai rhai mamau nad oedd digon yn cael ei wneud i’w hamddiffyn hwy a’u plant rhag y rhiant camdriniol yn ystod y broses. Pan deimlai mamau nad oedd barnwyr yn eu credu, roedd hyn yn effeithio’n negyddol ar eu canfyddiad cyffredinol o’r achos.

Adroddodd rhai tadau hefyd brofiadau negyddol gyda barnwyr, gyda rhai yng Ngogledd Cymru yn teimlo nad oedd barnwyr yn herio'r honiadau o gam-drin domestig a wnaed yn eu herbyn. Er ei bod yn ofynnol i farnwyr ddilyn canllawiau ymarfer a chyfraith achos wrth wneud penderfyniadau mewn achosion sy'n cynnwys cam-drin domestig, teimlai rhai teuluoedd nad oedd hyn wedi'i egluro'n glir iddynt. Pan nad yw prosesau gwneud penderfyniadau barnwrol yn cael eu hegluro'n glir, gallai teuluoedd fod wedi cael anhawster deall sut a pham y gwnaed penderfyniadau penodol. Gallai'r diffyg eglurder hwn fod wedi dylanwadu ar eu canfyddiadau a'u disgwyliadau o'r broses llys teulu.

Rhyngweithio â Gwasanaethau Cam-drin Domestig

Mae cynnwys gwasanaethau cam-drin domestig yn elfen newydd o'r Cynllun Braenaru ac yn anelu at sicrhau bod goroeswyr cam-drin domestig yn derbyn cymorth drwy gydol y broses i leihau eu hail-drawmateiddio. Gwerthfawrogodd mamau a oedd wedi gwneud honiadau o gam-drin domestig y cyfleoedd a ddarparodd Cynllun Braenaru i'w cysylltu â gwasanaethau cymorth arbenigol, gan gynnwys gwasanaethau cam-drin domestig. Roedd y gwasanaethau yn ymestyn i blant, ac roedd rhai yn gallu cael mynediad at therapi o ganlyniad.

Atgyfeiriwyd ychydig o dadau a rhai mamau at y gwasanaethau hyn yn y ddau safle. Roedd y rhan fwyaf o famau wedi cael rhyngweithio cadarnhaol â gwasanaethau cam-drin domestig, tra bod profiadau tadau'n fwy amrywiol. Roedd llawer o famau eisoes yn gleientiaid y gwasanaethau hyn cyn derbyn cymorth drwy'r Cynllun Braenaru.

Siaradodd y rhan fwyaf o famau yn gadarnhaol am y cymorth a gawsant, a oedd yn cynnwys cymorth emosiynol ac ymarferol. Roedd y cymorth hwn yn eu helpu i gael mynediad at gymorth cyfreithiol a mesurau arbennig, ac yn cynnwys mynychu gwrandawiadau llys:

“Roedd [Gweithiwr gwasanaeth cam-drin domestig] yn anhygoel, yn amlwg ni allai ddweud dim [yn y llys], ond roedd hi'n eistedd yno [ac] yn dal fy llaw o dan y bwrdd oherwydd roeddwn i'n hollol nerfus. Mae [gwasanaeth cam-drin domestig] wedi bod yn anhygoel, ni allaf eu beio” (Mam, Gogledd Cymru).

Fodd bynnag, roedd gan ychydig o famau brofiadau negyddol gyda gwasanaethau cam-drin domestig, a oedd yn bennaf oherwydd problemau capasiti. Roedd adnoddau cyfyngedig a

throsiant staff uchel yn golygu nad oedd rhai mamau'n derbyn cymorth wyneb yn wyneb yn ystod gwrandawiadau llys. Roedd hyn yn siomedig, er eu bod yn cydnabod bod cyfyngiadau adnoddau yn ffactor.

Ceisiodd nifer fach o dadau o Ogledd Cymru gymorth gan y gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol ond roeddent yn wynebu anawsterau wrth gael cymorth. Roeddent yn credu bod hyn oherwydd na allai asiantaethau gefnogi'r ddau ohonynt a'u cyn-bartner ar yr un pryd neu na allent gefnogi dynion.

Teimlai rhai tadau fod presenoldeb gweithiwr cam-drin domestig yn y gwrandawiadau yn rhoi mwy o bwysau i honiadau'r fam am gam-drin domestig. Mewn un achos gyda gwrth-honiadau, nododd tad fod presenoldeb gweithiwr cam-drin domestig gyda'i gyn-bartner wedi gwneud i'w honiadau ymddangos yn llai credadwy:

“Yn anffodus, oherwydd bod [gwasanaeth cam-drin domestig] bellach yn ei chefnogi...roedd pawb a ddaeth i gysylltiad â'r achos yn tybio ar unwaith mai hi oedd y dioddefwr” (Tad, Gogledd Cymru).

Yn y ddau safle, teimlai rhai tadau a mamau y dylent fod wedi'u hatgyfeirio at wasanaethau cam-drin domestig ond nad oeddent. Roedd mamau a oedd wedi profi'r broses CAP yn gweld cynnwys uniongyrchol gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol yn y Cynllun Braenaru fel gwelliant sylweddol.

Ymatebion i ddatgeliadau o gam-drin domestig

Yn dilyn datgeliad o gam-drin domestig, cyflwynodd model peilot Cynllun Braenaru arferion newydd i gefnogi goroeswyr yn well. Un o'r newidiadau allweddol yw cwblhau asesiad risg DASH (Cam-drin Domestig, Stelcio ac Argyfwng Seiliedig ar Anrhydedd).

Asesiadau Risg DASH

Yn Dorset, adroddodd llawer o famau a oedd wedi profi cam-drin domestig nad oedd asesiad DASH wedi'i gwblhau fel rhan o'u hachos; er bod nifer y cyfranogwyr yn fach. Yn yr un modd, yng Ngogledd Cymru, nododd rhai cyfranogwyr nad oedd DASH wedi'i gynnig, neu na allent gofio iddo ddigwydd. Nid oedd yn bosibl egluro hyn gyda gwasanaethau cam-drin domestig a allai fod

wedi darparu esboniad. O fewn model peilot Cynllun Braenaru, mae Cafcass, Cafcass Cymru neu'r awdurdod lleol yn asesu a yw atgyfeiriad at wasanaeth cymorth cam-drin domestig yn briodol. Lle bo'n bosibl, cynhelir asesiad risg DASH. Mae'n bosibl, mewn rhai achosion, fod asesiad risg DASH wedi'i gwblhau heb i'r cyfranogwr gofio hynny neu heb sylweddoli bod y cwestiynau'n rhan o asesiad ffurfiol.

Dywedodd ychydig o rieni a oedd wedi bod drwy CAP o'r blaen fod asesiad risg wedi'i gynnal o dan y Cynllun Braenaru, ond nad oedd wedi'i gynnig o dan CAP. Gwelsant hyn fel newid cadarnhaol, er enghraifft:

“Ni allaf feio'r asesiad a gefais oherwydd fe wnaethant ddarganfod yr hyn yr oedd angen iddynt ei wybod a'm helpu gyda'r ochr honno, y cymorth” (Tad, Gogledd Cymru).

Roedd y rhan fwyaf o famau o Ogledd Cymru a oedd wedi cwblhau asesiad risg DASH fel rhan o'u prosesau eisoes yn derbyn cymorth gan wasanaeth cam-drin domestig.

Mesurau Arbennig

Er bod mesurau arbennig wedi'u cyflwyno'n genedlaethol ar draws pob achos cyfraith breifat, ar wahân i fodel Cynllun Braenaru, rhannodd cyfranogwyr yn yr astudiaeth hon eu myfyrdodau ar eu defnydd mewn achosion Cynllun Braenaru.

Roedd mesurau arbennig yn cael eu cynnig yn gyffredin i gyfranogwyr a oedd wedi profi cam-drin domestig. I'r rhan fwyaf o famau, gofynnodd y gwasanaethau cam-drin domestig am hyn ar eu rhan. Nododd mamau a oedd wedi bod drwy CAP o'r blaen fod mesurau arbennig ar gael yn fwy rhwydd o dan y Cynllun Braenaru. Gallai hyn adlewyrchu newidiadau yn y dull cenedlaethol o weithredu mesurau arbennig. Roedd y rhai a ddefnyddiodd fesurau arbennig yn gyffredinol yn eu gweld yn gysur:

“Rhoddwyd amser cynt i mi fod yno a'm rhoi mewn rhan wahanol o'r llys. Ac ni welais [y tad] o gwbl drwy gydol y broses. Rhoddwyd sgrin rhyngom...Felly roeddwn i'n wirioneddol wedi'm syfrdanu gan hynny. Ac rwy'n meddwl, i unrhyw un oedd yn poeni neu'n ofnus, roedd hynny'n barchus iawn, ond wedi'i reoli'n ofalus” (Mam, Gogledd Cymru).

Pwysleisiodd mamau a oedd wedi profi pryder a symptomau corfforol i'r posibilrwydd o weld eu camdriniwr bwysigrwydd mesurau arbennig. Felly, adroddodd cyfranogwyr ei bod yn niweidiol pan gynigiwyd y mesurau hyn ond na chawsant eu gweithredu o gwbl neu i'r graddau llawn a addawyd:

“Roedd yn sefyllfa ofnus. Ac fe addawyd i mi na fyddai'n rhaid i mi ei weld...[ond] pan gyrhaeddais y llys, roedd o yno yn yr ystafell aros...felly roedd hynny'n peri ansicrwydd imi ar ddechrau'r diwrnod” (Mam, Gogledd Cymru).

Roedd rhai mamau'n ofidus pan holodd awdurdodau am yr angen am fesurau arbennig yn eu hachosion nhw. Yn ogystal, ni chofiodd ambell fam gael cynnig mesurau arbennig o gwbl.

Gwrth-honiadau o gam-drin

Adroddodd mamau brofiadau cadarnhaol yn bennaf ynghylch sut y deliodd gweithwyr proffesiynol â gwrth-honiadau. Fodd bynnag, awgrymodd ambell un fod eu hachos wedi'i drin fel 'gwrthdaro rhwng y rhieni' heb ystyried y niwed posibl o wrth-honiadau heb eu cadarnhau. Gwerthfawrogodd rhai mamau nad oedd gweithwyr proffesiynol wedi cadarnhau gwrth-honiadau a wnaed gan eu cyn-bartneriaid:

“Dywedwyd wrtho gan y gwasanaethau cymdeithasol, ‘Nid ydych yn cael cysylltiad â'ch plant drwy wneud honiadau ffug am eich cyn-bartner’” (Mam, Gogledd Cymru).

Teimlai mamau a oedd wedi profi CAP a'r Cynllun Braenaru fod gwrth-honiadau wedi'u trin yn fwy effeithiol o dan y Cynllun Braenaru. Awgrymodd rhai tadau a oedd yn rhan o achosion Cynllun Braenaru gyda gwrth-honiadau eu bod yn 'edifar' am godi cam-drin domestig yn eu hachos:

“Wrth edrych yn ôl, nid wyf yn siŵr os wnaeth y gwrth-honiadau fy helpu, gan ein bod wedi gorffen yn y nonsens ping-pong hwn yn y llys nad wyf yn credu a helpodd neb” (Tad, Gogledd Cymru).

Teimlai rhai mamau fod angen i weithwyr proffesiynol y llys a barnwyr gael dealltwriaeth well o gam-drin domestig i nodi pryd mae honiadau ffug yn cael eu gwneud. Awgrymodd ychydig o

famau, pan wnaeth y ddau barti honiadau, fod barnwyr yn gweld cam-drin domestig fel gwrthdaro rhwng y rhieni ac felly nad oeddent yn ei gymryd o ddifrif.

Ail-drawmateiddio o brosesau llys sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig

Dim ond mamau a adroddodd eu bod yn teimlo ail-drawmateiddio gan achosion llys ar ôl profi cam-drin domestig. Adroddodd nifer fach o dadau eu bod yn gweld y broses yn straen ond heb adlewyrchu unrhyw effeithiau trawmatig. Nid oedd yr ymatebwyr hyn yn oroeswyr cam-drin domestig. Cofiodd rhai mamau gyda honiadau o gam-drin domestig yn eu hachos pa mor drawmatig oedd bod yn yr un ystafell â'r camdriniwr, yn enwedig ar ôl cyfnod hir heb gyswllt:

“Roeddwn i'n teimlo llawer iawn o drawma. Roeddwn i'n cael trafferth anadlu yn y llys, roeddwn i'n afreolus, yn crynu, ac roeddwn i'n teimlo eu bod fel 'Beth sy'n mynd ymlaen gyda'r ddynes yma?' Ei weld o eto a achosodd yr ymateb hwn” (Mam, Gogledd Cymru).

Teimlai rhai mamau fod eu honiadau o gam-drin domestig wedi'u cwestiynu yn y llys ac i ychydig o famau, gwaethygodd hyn eu hanhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD) o'r cam-drin. Er enghraifft:

“Mae'n gwneud i chi gwestiynu eich realiti. Mae'n gwneud i chi deimlo'r holl gysylltiadau negyddol o fod yn ddioddefwr cam-drin domestig, o fod yn ddramatig, yn creu ffwdan am ddim byd...rydych yn niweidio eich plentyn drwy dorri cysylltiad...mae'n dadwneud cymaint o waith rwyf wedi ceisio ei wneud arnaf fy hun” (Mam, Gogledd Cymru).

Teimlai rhai fod sôn am eu profiadau o gam-drin domestig yn y llys yn gwneud i weithwyr proffesiynol feddwl eu bod yn ceisio 'chwarae'r system'. I un fam, roedd achosion llys a'r gorchymyn terfynol yn galluogi ei phartner i barhau â'r cam-drin. O ganlyniad, ystyriodd atal cyswllt â'i phlentyn i amddiffyn ei hun:

“Roedd [Gorchymyn] mewn gwirionedd yn galluogi [eu] tad i barhau i gam-drin. Ac mae'n amlwg yn effeithio ar fy rhianta, ac mae'n effeithio ar bob agwedd o fy mywyd” (Mam, Dorset).

Teimlai rhai mamau a oedd wedi profi cam-drin domestig yn gryf y byddai gwrandao arnynt a'u credu yn y llys wedi gwella eu profiadau'n sylweddol ac wedi lleihau trawma'r broses llys. Awgrymodd rhai o'r mamau hyn hefyd nad oedd achosion llys yn ystyriol o drawma:

“Roeddwn yn disgwyl y byddai'r wybodaeth am sut i drin dioddefwr, yn enwedig drwy lens ystyriol o drawma, yn safonol. Ond nid yw o gwbl, ac roeddwn i'n synnu ac wedi cael sioc gan y ffordd y dechreuodd y broses ac a barhaodd drwy gydol yr amser mewn gwirionedd” (Mam, Gogledd Cymru).

I'r cyfranogwyr yn yr astudiaeth hon, roedd dulliau ystyriol o drawma yn canolbwyntio ar deimlo eu bod yn cael eu credu, cael eu profiadau wedi'u dilysu gan weithwyr proffesiynol a chael eu clywed yn ystod achosion llys. Roedd gan famau a oedd hefyd wedi bod drwy CAP brofiadau amrywiol. Teimlai rhai lai o drawma gan y broses Cynllun Braenaru, yn bennaf oherwydd eu bod yn teimlo eu bod wedi'u credu a bod eu profiad o gam-drin domestig wedi'i ddeall yn well drwy gydol y broses llys. Fodd bynnag, teimlai rhai mamau fod CAP a'r Cynllun Braenaru ill dau yn brin o ddulliau ystyriol o drawma ac awgrymwyd fod angen mwy o waith i leihau ail-drawmateiddio'r broses llys i oroeswyr cam-drin domestig.

Pwysleisiodd yr Adroddiad Panel Niwed (Hunter et al., 2020) bwysigrwydd atal ail-drawmateiddio i oroeswyr cam-drin domestig mewn achosion cyfraith breifat. Fodd bynnag, mae'r profiadau a rennir gan y cyfranogwyr yn yr ymchwiliad hon yn awgrymu bod dal ffordd i fynd i gyflawni'r nod hwn o'u safbwynt nhw.

4.3 Profiad a Chyfranogiad Plant

Mae'r Cynllun Braenaru yn anelu at wella profiad plant o gyfranogiad (priodol) yn y broses llys. Roedd y rhan fwyaf o blant yn cael dweud eu dweud ynghylch ble y cynhaliwyd eu cyfarfodydd gyda Cafcass/Cafcass Cymru ac awdurdodau lleol, ac roeddent yn teimlo'n gyfforddus ac y gwrandawyd arnynt yn ystod y cyfarfodydd hyn. Fodd bynnag, teimlai rhai rhieni fod problemau'n parhau gyda chyfranogiad plant, megis pryd ac a siaradwyd â phlant gan Cafcass. Dywedodd ychydig o blant a rhai rhieni nad oedd teimladau a dymuniadau plant bob amser yn cael eu hadlewyrchu yng nghanlyniadau'r achos, ac nad oedd y rhesymau am hyn wedi'u hegluro. Yn gyffredinol, roedd gwahaniaethau cadarnhaol clir yn ymgysylltiad plant o dan y Cynllun Braenaru o'i gymharu â CAP.

Sicrhau safbwynt y plentyn

Penderfyniadau ynghylch pwy i'w gyfweld

Nododd rhieni broblemau ynghylch a siaradwyd â phlant. Yn benodol, gwelodd rhai rhieni anghysondebau ymhlith gweithwyr proffesiynol ynghylch yr isafswm oedran ar gyfer ceisio safbwynt plentyn. Soniodd rhai am blant mor ifanc â thair oed yn cael eu cyfweld gan Cafcass/Cafcass Cymru neu awdurdodau lleol. Fodd bynnag, cofiodd un rhiant fod Cafcass Cymru wedi ystyried ei blentyn yn rhy ifanc i roi ei safbwynt yn bump oed. Mae hyn yn awgrymu bod amrywiad mewn arfer ond gallai ddangos bod ymarferwyr yn gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar allu a dealltwriaeth y plentyn yn hytrach na'i oedran yn unig.

Yn yr un modd, roedd adroddiadau cymysg am allu plant i gyfrannu pan oedd ganddynt anghenion ychwanegol. Nododd cyfranogwyr a oedd â phlant gydag ASD fod eu plant naill ai'n ddi-eiriau neu'n bryderus yn gymdeithasol. Yn y rhan fwyaf o achosion, roedd FCAs Cafcass/Cafcass Cymru a gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol yn gallu gwneud trefniadau i ddarparu ar gyfer yr anghenion ychwanegol hyn, a siarad â'r plant:

“Daeth [FCA] allan i'r tŷ i'w gweld yn gyntaf fel y gallai eu gwneud yn gyfforddus gyda hi, ac yna [aeth hi] i'w gweld yn yr ysgol, yn hytrach na dim ond cyfarfod yn yr ysgol” (Mam, Gogledd Cymru).

Yn Ngogledd Cymru, disgrifiodd ychydig o dadau plant gydag anghenion ychwanegol sut ystyriodd Cafcass Cymru anghenion ychwanegol eu plant wrth wneud argymhellion yn yr Adroddiad Effaith ar Blentyn. Fodd bynnag, mewn un achos, ni ofynnwyd am safbwynt plentyn oherwydd ei ddiagnosis ASD.

Penderfyniadau ynghylch lle i gyfweld

Digwyddodd llawer o ryngweithio plant gyda Cafcass/Cafcass Cymru ac awdurdodau lleol yn yr ysgol. Roedd ysgolion yn cael eu hystyried gan y rhan fwyaf o blant a rhieni fel lleoliadau niwtral lle gallai plant siarad yn hawdd, heb ddylanwad na phwysau rhieni. Cofiodd rhai plant eu bod wedi cael dewis ynghylch lle i'w cyfweld, er enghraifft:

“Cefais ddewis ble i gyfarfod â [FCA]. Aethom i ystafell breifat” (Plentyn, Gogledd Cymru).

Gallai staff ysgol fod ar gael i gefnogi plant pe baent yn ofidus yn ystod rhyngweithio. Roedd ysgolion yn well na'r cartref teuluol, gan fod rhai rhieni'n pryderu am eu plant yn cael eu cyfweld o flaen eu cyn-bartneriaid, oherwydd amheuaeth y gallai plant gael eu dylanwadu neu deimlo na allant siarad yn hawdd. Fodd bynnag, roedd ychydig o blant yn pryderu y gallai cael eu tynnu allan o'r dosbarth fod yn embaras neu arwain at gwestiynau gan eu cyfoedion. Er bod llawer o blant wedi cael dewis ynghylch lleoliad y cyfarfod, mewn ychydig o achosion, anwybyddwyd y dewis hwn gan FCAs a gweithwyr cymdeithasol, gan synnu'r plant a'r rhieni.

Teimladau plant am gyfweliadau

Roedd y rhan fwyaf o blant yn teimlo'n bryderus, nerfus, neu ofnus cyn eu sesiynau gyda Cafcass/Cafcass Cymru neu awdurdodau lleol. Yn gyffredinol, roedd FCAs a gweithwyr cymdeithasol yn gallu tawelu plant wrth gasglu eu safbwyntiau:

“Daeth [FCA] â theganau i mi chwarae gyda nhw, a oeddwn i'n hoffi a gwnaeth i mi deimlo'n well” (Plentyn, Gogledd Cymru).

Fodd bynnag, ni chafodd rhai plant sgwrsio â FCAs neu weithwyr cymdeithasol yn gysurus. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, roedd oherwydd eu bod wedi'u gadael yn ansicr am benderfyniad y llys:

“Ni chawsom ein tawelu...oherwydd doeddwn i a fy chwaer, doedden ni ddim eisiau mynd i fyw gyda'n tad, ond roedden nhw fel, 'Gallai dal ddigwydd.' Felly, doedden ni ddim yn siŵr beth oedd yn mynd i ddigwydd...nid oedd yn gysur” (Plentyn, Gogledd Cymru).

Byddai plant wedi elwa o ymgysylltiad parhaus â Cafcass/Cafcass Cymru ac awdurdodau lleol gan gynnwys mwy o ddiweddariadau am eu hachos:

“Roeddwn i'n teimlo'n drist iawn oherwydd ni chlywais ddim gan [FCA] wedyn. Ac yna roeddwn i'n teimlo'n hollol ar goll ac yn ddryslyd” (Plentyn, Dorset).

Ystyried barn plant

Roedd y rhan fwyaf o blant yn falch o gael cyfle i leisio eu barn yn ystod yr achos:

“Roedden nhw’n gallu ein clywed ni a gallwn ddweud ein ochr ni o’r stori. Roeddwn i’n hoffi hynny. Ond roedd yn broses dda. Aeth yn araf, ond daeth i ben yn y diwedd” (Plentyn, Gogledd Cymru).

Siaradodd plant eraill yn fwy cyffredinol am gael y cyfle i siarad:

“Roeddwn i’n teimlo fel fy mod wedi cael y cyfle i siarad a dweud yr hyn roeddwn i eisiau am fy nhad a phethau, er ei bod hi’n anodd siarad amdano” (Plentyn, Gogledd Cymru).

Roedd y rhan fwyaf o rieni’n falch bod barn eu plentyn wedi’i geisio neu’n dymuno y byddai wedi’i geisio pe na bai. Dim ond un tad oedd yn anhapus bod ei blentyn wedi cymryd rhan, gan gredu y dylai oedolion wneud penderfyniadau ar ran eu plant.

Fodd bynnag, roedd barn gymysg gan blant a rhieni ynghylch a ystyriwyd safbwynt y plentyn yn ystod yr achos. Roedd rhai adroddiadau cadarnhaol o blant yn teimlo eu bod wedi’u clywed gan blant eu hunain, gan famau ac, i raddau llai, gan dadau. Roedd gwrando ar blant yn cael ei ystyried fel rhywbeth hanfodol ar gyfer eu hiechyd meddwl a’u lles ac roedd rhieni’n gweld hyn fel enghraifft dda o ymarfer ystyriol o drawma:

“Rwy’n meddwl bod [y llys] angen ei glywed ef, clywed ei ochr ef. Ac rwy’n meddwl hyd yn oed iddo ef, roedd hynny’n cau’r bennod yr oedd ei angen...oherwydd pa mor hir yr oedd wedi bod yn mynd ymlaen a’r trawma a achosodd iddo, felly fe’i helpodd ef yn fawr iawn” (Mam, Gogledd Cymru).

Yn y ddau safle Cynllun Braenaru, roedd yn drist i blant a rhieni pan nad oedd dymuniadau plant wedi’u hystyried. Yn yr un modd, wrth glywed canlyniadau eu hachos, teimlai ychydig o blant o’r ddau safle fod eu cyfranogiad wedi bod yn ddi-rym ac mai trydydd parti oeddent i benderfyniadau a wnaed amdanynt:

“Wnes i a [brawd/chwaer]...son wrth [FCA] fy mod eisiau dewis a ydw i’n mynd [i dŷ’r tad] neu beidio...Dwi ddim yn meddwl eu bod nhw wir wedi ystyried hynny, ac nid oeddent wir wedi gwrando arnon ni” (Plentyn, Dorset).

Er nad yw bob amser yn briodol nac yn ddiogel i lysoedd wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddymuniadau plant, byddai plant wedi elwa o wybod bod eu lleisiau wedi'u clywed a deall pam nad oedd eu dymuniadau wedi'u hadlewyrchu yn y penderfyniad terfynol.

Adroddiad Effaith ar Blentyn

Canfu rhieni yn y ddau safle fod yr Adroddiad Effaith ar Blentyn (CIR) yn ddefnyddiol ar gyfer caniatáu i blant fynegi eu dymuniadau a'u teimladau am gyswllt a threfniadau byw. Gwnaeth teuluoedd a oedd wedi profi CAP o'r blaen gymariaethau cadarnhaol rhwng y broses CAP a'r broses Cynllun Braenaru:

“[FCA] oedd yr un a aeth i gyfarfod â [plentyn]. Aeth i eistedd i lawr gyda [plentyn]. Ac fe ysgrifennodd lythyr hyd yn oed. Ysgrifennodd ef a [plentyn] lythyr i'r barnwr” (Mam, Gogledd Cymru).

Roedd derbyn copi o'r CIR gyda'r argymhellion ymlaen llaw yn helpu rhieni i baratoi ar gyfer y llys ac yn rhoi sicrwydd iddynt. Roeddent yn gwerthfawrogi gonestrwydd a thryloywder yr adroddiad. Fodd bynnag, ni allai ychydig o rieni ar draws y ddau safle gofio gweld yr adroddiad cyn y gwrandawriad, tra bod eraill yn ansicr a oedd un wedi'i ysgrifennu. Teimlai rhai hefyd nad oedd argymhellion yr adroddiad yn adlewyrchu barn eu plentyn yn gywir:

“Roedd [yr hyn] a ysgrifennwyd yn debyg i'r hyn oedd fy [plentyn] wedi'i ddweud. [Ond] er mai dyna oedd fy [mhentyn] wedi'i ddweud, fe wnaethant ddilyn gyda, 'Ond rwy'n meddwl y dylai aros yn 50/50.' Ac mae fel, lawn, felly beth oedd pwynt siarad â'm [plentyn] felly?” (Tad, Gogledd Cymru).

Rhannodd ychydig o rieni eu sylwadau gydag awduron eu CIR ond dywedwyd wrthynt na fyddai'r adroddiad yn cael ei newid i adlewyrchu eu hadborth. Er bod y CIR yn seiliedig ar asesiad yr achos gan yr FCA neu'r gweithiwr cymdeithasol, mae cyfleoedd cyfyngedig i rieni roi adborth unwaith y bydd yr adroddiad wedi'i gwblhau. Gellid bod wedi cyfathrebu hyn i reoli disgwyliadau rhieni'n well. Yn gyffredinol, roedd rhieni'n teimlo'n gyfforddus yn rhannu eu profiadau a'u safbwyntiau i lywio'r CIR a'i argymhellion. Hefyd, dywedodd plant eu bod wedi teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn ystod y broses:

“Oherwydd fel pobl Cafcass [Cymru], roedden nhw’n ein clywed ni. Roeddem yn cael cyfle i’n lleisiau gael eu clywed” (Plentyn, Gogledd Cymru).

4.4 Dull Amlasiantaethol

Mae Cynllun Braenaru yn anelu at wella cydlynw rhwng asiantaethau (megis Cafcass/Cafcass Cymru, awdurdodau lleol, a’r heddlu) a’r llys teulu. Roedd casglu gwybodaeth yn gynnar ar gyfer yr Adroddiad Effaith ar Blentyn (CIR) yn cael ei weld fel rhywbeth buddiol. Fodd bynnag, mae angen mwy o waith i fynd i’r afael â materion ynghylch cydweithio amlasiantaethol. Rhannodd rhai rhieni bryderon ynghylch sut yr oedd asiantaethau’n trin ac yn rhannu gwybodaeth sy’n gysylltiedig â phryderon diogelu a lles. Yn gyffredinol, er bod cynnydd wedi’i wneud tuag at y nod hwn, mae cyfleoedd o hyd i wella.

Ymatebion i Bryderon Diogelu a Lles

Roedd y rhan fwyaf o’r rhyngweithio rhwng rhieni ac asiantaethau gwahanol yn canolbwyntio ar gam-drin domestig, diogelu a materion lles. Roedd rhai rhieni’n pryderu am brosesau rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau, gan deimlo bod materion diogelu a lles wedi’u tanseilio neu’u hanwybyddu gan sawl asiantaeth. Roeddent hefyd yn mynegi rhwystredigaeth nad oedd gwybodaeth neu bryderon a rannwyd ganddynt gydag asiantaethau wedi’u cynnwys yn y CIR nac wedi’u hystyried yn eu hachos.

Roedd yr ymateb i bryderon diogelu a lles yn gymysg. Roedd tua hanner y rhieni gyda phryderon diogelu neu les yn eu hachos yn teimlo nad oedd y rhain wedi derbyn sylw digonol gan asiantaethau fel yr heddlu neu wasanaethau cymdeithasol plant, gyda gwybodaeth allweddol am risgiau heb ei rhannu ar draws asiantaethau. Roedd y pryderon yn cynnwys honiadau o gam-drin neu drais yn erbyn plant, esgeulustod, defnydd anniogel o alcohol, a pheryglon eraill gan bartneriaid newydd. Disgrifiodd rhai mamau achosion o gam-drin a thrais yn erbyn plant yn cael eu hanwybyddu gan Cafcass/Cafcass Cymru, awdurdodau lleol, a/neu farnwyr. Gallai hyn fod oherwydd hepgoriadau yn y CIR neu ymddangos fel pe bai wedi’i anwybyddu oherwydd na chymerwyd unrhyw gamau, megis rhannu gwybodaeth newydd o’r CIR gyda gwasanaethau cymdeithasol plant. Er enghraifft, disgrifiodd y fam hon sut yr oedd gwybodaeth wedi’i chynnwys ond wedi’i ‘thanseilio’ yn y CIR:

“Roeddwn i wedi adrodd [trais gan y tad yn erbyn plant] i'r Ganolfan Cymorth Cynnar, ond cafodd hynny ei danseilio i gyd yn y [CIR]. Cafodd fy mhryderon am ei iechyd meddwl ac ymddygiad eu hanwybyddu'n llwyr” (Mam, Gogledd Cymru).

Canfu rhai rhieni fod eu materion heb eu datrys. Unwaith y daeth eu hachos i ben, roedd rhieni'n cael trafferth cael cymorth ychwanegol gan asiantaethau fel yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol plant pan gododd pryderon. Mae hyn yn tynnu sylw at rai heriau wrth gyflawni argymhelliad yr Adroddiad Panel Niwed (Hunter et al., 2020) ar gyfer dull diogelwch-ganolog ac ymchwiliol i reoli pryderon diogelu mewn achosion cyfraith breifat ar draws asiantaethau. Fodd bynnag, adroddodd ychydig o gyfranogwyr fod materion diogelu a lles wedi'u rheoli'n dda yn ystod y broses Cynllun Braenaru gan yr asiantaethau a oedd yn gysylltiedig â'u hachos:

“Roeddwn i'n teimlo y cadarnhawyd bod yr asiantaethau gwahanol wedi cadarnhau nad oedd y tŷ'n ddiogel i'r plant a bod [y tad] yn byw bywyd hynod anhrefnus” (Mam, Gogledd Cymru).

Mynegodd ychydig o rieni safbwyntiau cadarnhaol am waith amlasiantaethol, a soniwyd am werth casglu gwybodaeth yn gynnar ar gyfer y CIR.

4.5 Effeithiolrwydd y Broses Lllys

Roedd y Cynllun Braenaru yn anelu at ddarparu proses lllys fwy effeithlon gan leihau oedi tra'n sicrhau bod gorchmynion yn briodol ac yn ddiogel. Teimlai rhieni a oedd wedi profi CAP fod y broses Cynllun Braenaru yn fwy effeithlon ond roeddent yn dal i bryderu am gyflymder y broses. Teimlai rhai fod y broses yn dal yn rhy hir, gan achosi gorbryder a straen, tra nododd lleiafrif fod rhai rhannau o'r broses, fel gwrandawadau, bellach wedi eu rhuthro, gan gyfyngu ar eu cyfle i rannu eu profiadau yn y llys. Yn gyffredinol, roedd yna welliannau amlwg yn effeithlonrwydd y broses lllys o dan y Cynllun Braenaru.

Hyd y Broses Lllys

Canfu'r rhan fwyaf o gyfranogwyr fod y broses lllys yn faith, o'r cais i'r canlyniad. Teimlai rhai fod hyn yn briodol o ystyried pwysigrwydd a chymhlethdod y gwaith dan sylw. Yng Ngogledd Cymru, amrywiai hyd y broses rhwng tri mis a dwy flynedd, gyda'r mwyafrif yn dod i ben mewn llai na chwe mis. Credai nifer fach o dadau fod eu hachos wedi para dwy i dair blynedd; fodd bynnag, mae'n debygol bod y cyfrifon hyn yn adlewyrchu ceisiadau cynharach a wnaed o dan CAP cyn

cyflwyno model Cynllun Braenaru. I'r rhai yn Dorset, parhaodd achosion rhwng tri a chwe mis. Disgrifiodd llawer o rieni effaith emosiynol y broses llys faith, gan nodi ei chanlyniadau ar y berthynas rhiant-plentyn. Adroddodd plant hefyd eu bod wedi teimlo'n bryderus, ofnus ac o dan straen wrth aros am benderfyniad y llys. Er enghraifft:

“Roeddwn i mewn lle ofnadwy. Doeddwn i ddim yn canolbwyntio ar yr ysgol. Roeddwn i'n ofnus iawn na fyddwn yn gallu gweld fy mrodyr a'm chwaer byth eto...[Roeddwn i] yn mynd trwy lawer, ac roedd yn achosi llawer o orbryder a straen imi” (Plentyn, Gogledd Cymru).

Er bod cymariaethau uniongyrchol rhwng CAP a'r Cynllun Braenaru yn gyfyngedig, nododd rhai rhieni fod y Cynllun Braenaru yn gynt.¹⁶ Roedd y rhan fwyaf o rieni'n gweld y cyflymder cynyddol yn gadarnhaol. Fodd bynnag, mynegodd ychydig o famau a oedd yn rhan o achosion cam-drin domestig bryderon fod cyflymder y broses llys yn teimlo wedi'i rhuthro. Teimlent nad oedd ganddynt gyfle i rannu eu profiadau o gam-drin domestig yn llawn yn ystod gwrandawiadau gan fod y ffocws ar symud yr achos ymlaen yn gyflym. Er hynny, teimlai'r mamau hyn fod eu profiadau wedi'u casglu yn y CIR.

4.6 Achosion sy'n Dychwelyd

Mae Cynllun Braenaru yn anelu at leihau nifer yr achosion sy'n dychwelyd drwy orchmynion llys mwy cynaliadwy. Roedd gan rieni farn gadarnhaol yn gyffredinol pan gawsant y canlyniad a ddymunent. Fodd bynnag, roedd rhieni nad oedd wedi cael y canlyniad a ddymunir neu a oedd yn cael trafferth gorfodi gorchmynion llys yn tueddu i gael barn negyddol ac roedd rhai'n disgwyl dychwelyd i'r llys rywbryd yn y dyfodol.

Byddai llawer o gyfranogwyr wedi hoffi gwiriad neu adolygiad i weld sut yr oedd y trefniadau'n gweithio. Yn gyffredinol, er bod cynnydd wedi'i wneud tuag at leihau nifer yr achosion sy'n dychwelyd, mae cyfleoedd i wella ymhellach, megis cyflwyno gwiriadau i fonitro canlyniadau achosion.

¹⁶ Mae ystadegau Llys Teulu 2024 yn dangos bod achosion cyfraith breifat wedi cymryd 42 wythnos ar gyfartaledd i gyrraedd gorchymyn terfynol yn ystod 2024 (MOJ, 2025)

Canlyniadau'r Llys

Rhoddwyd gorchymyn 'yn byw gyda' i gyfran uwch o famau nag o ddau a gyfweiliwyd, sy'n golygu bod y plentyn yn byw gyda nhw drwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser. I ychydig o rieni, rhannwyd cyswllt yn gyfartal rhwng y ddau riant. Rhoddwyd dim cyswllt, cyswllt anuniongyrchol, neu gyswllt â goruchwyliaeth/heb oruchwyliaeth i'r rhieni eraill. Yn y rhan fwyaf o achosion, rhoddodd mamau wybod i'r plentyn am benderfyniad y llys.

Roedd gan rieni deimladau cymysg am y penderfyniadau yn eu hachos. Roedd y rhai nad oeddent wedi cael cyswllt, neu y cyfyngwyd eu cyswllt i lythyr yn unig, yn anfodlon neu'n anhapus. Roedd y rhai a gafodd drefniadau megis bod yn brif breswylfa neu drefniadau gofal a rennir lle mae'r plentyn yn byw gyda'r ddau riant o dan Orchymyn Trefniadau Plant ('yn byw gyda') yn fodlon neu'n hapus gyda phenderfyniad y llys. Rhagwelodd nifer fach o rieni y byddent yn dychwelyd i'r llys teulu yn y dyfodol, naill ai oherwydd nad oedd y canlyniad a ddymunwyd wedi'i gyflawni, nad oedd cyswllt yn digwydd yn unol â phenderfyniad y llys, neu oherwydd pryderon am les plant. Dywedodd y rhan fwyaf o blant a ofynnwyd gan ymchwilydd yn uniongyrchol eu bod yn hapus gyda'r penderfyniad:

"Roeddwn i'n hapus am y penderfyniad. Roeddwn i'n rhydd o'r pwysau i gael hynny drosodd. Roeddwn i'n hapus gyda'r canlyniad" (Plentyn, Gogledd Cymru).

Fodd bynnag, nid oedd un plentyn yn hapus gyda'r penderfyniad ac roedd yn teimlo nad oedd ei safbwynt wedi'i ystyried:

"Wnes i a [brawd/chwaer] ddweud wrth Mam, ac fe soniais wrth [FCA], fy mod eisiau dewis os ydw i'n mynd neu beidio. Ac yna dywedais wrth mam fy mod eisiau hynny, a dwi ddim yn meddwl eu bod nhw wir wedi ystyried hynny, ac nid oeddent wir wedi gwrandao" (Plentyn, Dorset).

Wrth ofyn am effeithiolrwydd penderfyniadau'r llys, adroddodd rhai cyfranogwyr o'r ddau safle anawsterau wrth eu cynnal. Soniodd mamau, yn arbennig, fod eu cyn-bartneriaid yn methu â chydymffurfio â phenderfyniad y llys. Roedd hyn yn cynnwys methu â chyfathrebu neu ymgysylltu â'r fam a/neu'r plentyn fel y gofynnwyd, a pharhau ag ymddygiad camdriniol a phroblemus hyd yn oed ar ôl i'r penderfyniad gael ei wneud.

Mater nodedig arall oedd atgyfeiriadau i wasanaethau eraill. Dywedodd rhai mamau eu bod wedi'u hatgyfeirio i gwrs rhianta o ganlyniad i'w hachos llys. Teimlent fod hyn yn amhriodol yn eu hachos nhw, gan nad oedd atgyfeiriadau o'r fath i fod i ddigwydd mewn achosion a nodwyd o gam-drin domestig:

“Cawsom ein cyfarwyddo i wneud cwrs rhianta un diwrnod, y ddau ohonom, sef y cwrs gwaethaf i rywun sy'n ddioddefwr cam-drin domestig ei wneud. Roedd gorfod gwneud hynny gyda'n gilydd yn ofnadwy” (Mam, Gogledd Cymru).

Cam Adolygu

Roedd cam olaf y Cynllun Braenaru yn adolygiad a oedd i fod i ddigwydd rhwng tri a deuddeg mis ar ôl y gorchymyn terfynol i asesu ei effeithiolrwydd a blaenoriaethu diogelwch.¹⁷ Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o rieni ar draws y ddau safle nad oedd unrhyw adolygiad na chymorth wedi'i gynnig ar ôl i'r gorchymyn llys terfynol gael ei roi ar waith, er eu bod wedi'u hysbysu y byddai adolygiad gan FCA Cafcass/Cafcass Cymru o fewn chwe mis. Yn ogystal, roedd rhai cyfranogwyr yn ansicr neu'n anymwybodol o'r hyn i'w ddisgwyl o'r cam hwn. Dim ond tri chyfwelydd a grybwyllodd unrhyw adolygiad neu gyswllt dilynol. Mae'n bwysig nodi bod y ffrâm sampl yn cynnwys achosion a ddaeth i ben dri mis cyn y cyfweiliad, felly roedd trefniadau'n gymharol newydd i rai cyfranogwyr (gweler Atodiad D). Teimlai'r rhan fwyaf o rieni y dylai cyswllt dilynol, 'gwiriad' neu adolygiadau ddigwydd ac y byddent wedi bod o fudd yn eu hachos. Wrth ofyn, ni ddywedodd unrhyw un o'r rhieni eu bod wedi cael unrhyw gymorth dilynol, ac roedd rhai rhieni'n amlwg yn drist am y diffyg dilyniant hwn, er enghraifft:

“Rwy'n teimlo'n hollol unig yng nghanol y cefnfor ar ôl y gorchymyn terfynol...Nid wyf yn gwybod sut i ddelio â negeseuon cyson [tad]. Rwyf wedi e-bostio'r cyfreithwyr ychydig o weithiau oherwydd roedd [tad] yn awgrymu nad oedd yn mynd i ddod â [plentyn] yn ôl. Ac mae gwybod ble i fynd am y math hwnnw o beth oherwydd gall y cyfreithwyr ond gwneud hyn a hyn” (Mam, Gogledd Cymru).

¹⁷Roedd cynnwys y cam hwn yn dilyn argymhelliad yn Adroddiad y Panel Niwed ar gyfer dilyniant rhyngweithiol tri i chwe mis ar ôl gwneud gorchmynion i weld sut maent yn gweithio (Hunter et al., 2020, tud. 176).

Fodd bynnag, nid oedd diffyg cyswllt dilynol â'r llys yn cael ei weld fel rhywbeth negyddol gan bawb:

“Mae’n debyg nad wyf eisiau pobl yn holi sut mae pethau’n mynd drwy’r amser, dim ond oherwydd nad yw’r rhan honno o fy mywyd yno mwyach, fel fy mod wedi symud ymlaen” (Mam, Dorset).

5. Canfyddiadau: Materion Ehangach Cyfiawnder Teuluol

5.1 Honiadau o Ymddygiadau Dieithrio

Cyhoeddodd y Cyngor Cyfiawnder Teuluol (2024) ganllawiau i fynd i'r afael ag achosion lle mae plentyn yn gwrthod neu'n gwrthsefyll cyswllt â rhiant, gan gynnwys lle mae honiadau o 'ymddygiadau dieithrio'. Disgwylir i lysoedd yng Nghymru a Lloegr beidio â derbyn 'dieithrio rhiant' fel cysyniad oherwydd diffyg sail wyddonol (Clemente, 2015). Codwyd honiadau o ymddygiadau dieithrio mewn ychydig o achosion gan dadau, a disgrifiodd rhai mamau eu bod wedi'u cyhuddo o hyn hefyd. Roedd safbwyntiau'r rhieni hyn am sut y deliwyd â honiadau gan weithwyr proffesiynol yn amrywio.

Teimlai rhai tadau fod eu profiadau o ymddygiadau dieithrio wedi'u cydnabod yn ystod paratoi'r CIR ond heb eu cynnwys yn yr adroddiad ei hun. Teimlai'r rhan fwyaf o dadau nad oeddent wedi'u cefnogi yn eu honiadau o ymddygiadau dieithrio gan weithwyr proffesiynol, gan gyfeirio at ddiffyg gwasanaethau a allai gynnig cymorth priodol.

Adroddodd ychydig o famau eu bod wedi'u cyhuddo gan dad eu plant o ymgysylltu ag ymddygiadau dieithrio a thrin. Roedd eu profiadau gyda gweithwyr proffesiynol yn amrywio; teimlai rhai fod gweithwyr proffesiynol wedi gweld drwy'r honiadau, tra teimlai eraill fod yr honiadau wedi'u gwaethygu gan y gweithwyr proffesiynol. Roedd yr honiadau hyn yn effeithio ar sut yr oedd mamau'n rhyngweithio â'u plant, gyda rhai'n teimlo bod yn rhaid iddynt fod yn ofalus wrth gefnogi plant yn ystod y broses llys:

“Ni allwch fod yn rhydd gyda'ch geiriau a mynegi eich hun yn y foment. Ac rydych yn orwyliadwrus drwy'r amser” (Mam, Gogledd Cymru).

Mae'r sefyllfa hon yn tynnu sylw at y sefyllfa anodd y canfu rhai rhieni eu hunain ynnddi, gan geisio cydbwyso eu hymddygiad o amgylch eu plant â gofynion y broses llys. Yn aml roeddent yn teimlo'n gaeth rhwng yr angen i gefnogi eu plant a'r pwysau i lywio'r broses llys.

5.2 Cynrychiolaeth Gyfreithiol

Roedd cyfranogwyr a gynrychiolwyd gan gyfreithwyr yn gyffredinol yn cael profiadau mwy cadarnhaol na'r rhai oedd yn LiP. Ceisiodd rhai cyfranogwyr gyngor gan gyfreithwyr, yn aml ar eu traul eu hunain, er bod rhai wedi derbyn cymorth cyfreithiol. Roedd y rhan fwyaf yn fodlon ar y cymorth a gawsant gan eu cyfreithiwr, ond teimlai rhai nad oedd y cymorth a gawsant yn werth y gost. Roedd cyfranogwyr eraill yn LiP, gydag un yn defnyddio Cyfaill McKenzie.¹⁸ I ambell un, roedd hyn yn ddewis cadarnhaol yn seiliedig ar brofiad blaenorol a rhywfaint o wybodaeth am y broses. Fodd bynnag, nid oedd y rhan fwyaf wedi dewis yr opsiwn hwn ond wedi'u gorfodi i wneud hynny gan nad oeddent yn gallu fforddio cyfreithiwr neu nad oeddent yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Disgrifiodd LiPs eu bod yn teimlo eu bod wedi eu 'diystyru' neu na wrandawyd arnynt ac roeddent yn ei chael yn heriol ymateb i gyfreithwyr. Nododd rhai goroeswyr cam-drin domestig fod trawma mynychu'r llys yn dwysáu os oedd eu cyn-bartner yn LiP.

Costau ariannol prosesau cyfreithiol

Tynnodd llawer o gyfranogwyr sylw at faich ariannol prosesau cyfreithiol. Er nad yw hyn yn benodol i'r Cynllun Braenaru, roedd y mater hwn yn berthnasol i'r rhai a oedd wedi mynd drwyddo. I'r rhan fwyaf, roedd y costau ariannol yn canolbwyntio ar gost uchel cyfreithwyr a ffioedd cyfreithiol. Mewn rhai achosion, parhaodd pryderon am effaith ariannol achosion llys hyd yn oed ar ôl y canlyniad terfynol, gyda mamau yn arbennig yn nodi'r crocbris o ddychwelyd i'r llys pan nad oedd trefniadau'n gweithio neu wedi chwalu:

“Mae'n rhaid bod yna ffordd haws, cost-effeithiol i allu dychwelyd i'r llys os nad yw'r gorchymyn hwnnw'n gweithio. Oherwydd mae'n afresymol” (Mam, Gogledd Cymru).

¹⁸ Mae Cyfaill McKenzie yn unigolyn sy'n gefn i rhywun ac yn cynnig cefnogaeth ymarferol i rywun mewn achos llys sydd heb gyfreithiwr

6. Crynodeb a Mewnwelediadau ar gyfer Gweithredu

6.1 Crynodeb

Mae'r model Cynllun Braenaru yn anelu at wella profiad y llys teulu i bob parti, yn enwedig rhieni sydd wedi goroesi cam-drin domestig a'u plant, darparu proses llys fwy effeithlon a lleihau ail-drawmateiddio goroeswyr cam-drin domestig. Mae'r gwerthusiad yn tynnu sylw at wahaniaethau yn y ffordd y profodd rhieni a phlant yn y ddau safle peilot yn yr astudiaeth hon y Cynllun Braenaru. Mae'n bwysig nodi nad yw'r ymchwil hon yn cynrychioli profiadau pob defnyddiwr Cynllun Braenaru. Yn hytrach, mae'n adlewyrchu profiadau sampl gymharol fach a hunanddewisol o gyfranogwyr.

Buddion

Disgrifiodd cyfranogwyr ystod o fuddion sy'n ymwneud â'r broses Cynllun Braenaru:

- **Profiadau gyda asiantaethau:** Roedd y rhan fwyaf o blant a rhieni wedi cael profiadau rhyngweithio cadarnhaol gyda'r rhan fwyaf o weithwyr proffesiynol, yn enwedig FCAs Cafcass/Cafcass Cymru. Yn ogystal, adroddodd rhai cyfranogwyr heb gam-drin domestig yn eu hachos brofiadau cadarnhaol gyda barnwyr yn y ddau safle pan deimlent eu bod wedi cael eu clywed.
- **Ymateb i gam-drin domestig:** Gwerthfawrogodd rhieni osgoi cyfryngu a chael cynnig asesiadau risg DASH a mesurau arbennig mewn achosion cam-drin domestig, er nad oedd y rhain bob amser wedi'u gweithredu'n ymarferol. Roedd cynnwys gwasanaethau cam-drin domestig yn y model Cynllun Braenaru yn cael ei weld yn gadarnhaol gan famau, yn enwedig y rhai a oedd wedi profi'r broses CAP o'r blaen. Adroddodd mamau hefyd brofiadau cadarnhaol yn bennaf gyda sut yr oedd gweithwyr proffesiynol yn rheoli gwrth-honiadau.
- **Profiad a chyfranogiad plant:** O safbwynt plant a theuluoedd, dyma un o'r meysydd lle'r oedd Cynllun Braenaru yn gweithredu'n arbennig o dda. Roedd plant yn gyffredinol yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â FCAs Cafcass/Cafcass Cymru a gweithwyr cymdeithasol.

Roedd y CIR hefyd yn darparu cyfle gwerthfawr i blant fynegi eu teimladau am drefniadau cyswllt.

- **Rhannu gwybodaeth yn gynnar gyda theuluoedd:** Teimlai rhieni yn y ddau safle eu bod wedi'u hysbysu'n dda am y Cynllun Braenaru yn gynnar yn y broses. Er na soniwyd yn benodol am rôl y Swyddog Cynnydd Achos,¹⁹ gwnaethant gyfeirio at dasgau a oedd yn gysylltiedig â'r rôl hon, megis derbyn taflen wybodaeth gyffredinol.
- **Effeithlonrwydd y broses llys:** Yn gyffredinol, rhannodd cyfranogwyr brofiadau cadarnhaol ynghylch hyd y broses llys. Teimlai rhieni a oedd wedi bod drwy CAP o'r blaen fod Cynllun Braenaru yn fwy effeithlon.

Heriau

Fodd bynnag, disgrifiodd cyfranogwyr ystod o heriau sy'n ymwneud â'r broses Cynllun Braenaru, gyda llawer yn ymwneud â'r profiad o fynychu'r llys:

- **Profiadau gyda asiantaethau:** Adroddodd rhai plant a rhieni ryngweithio negyddol gyda gweithwyr proffesiynol, yn enwedig gweithwyr cymdeithasol awdurdodau lleol a rhai barnwyr. Roedd gan rieni gyda cham-drin domestig yn eu hachos brofiadau negyddol yn bennaf gyda barnwyr, gan deimlo bod eu honiadau o gam-drin wedi'u tanseilio. Er ei fod yn cael ei gydnabod bod barnwyr yn rhwym wrth ganllawiau ymarfer wrth wneud penderfyniadau mewn achosion sy'n cynnwys cam-drin domestig, mae'n bwysig bod y cyfyngiadau hyn yn cael eu cyfathrebu i deuluoedd i helpu i reoli eu disgwyliadau o'r broses llys.
- **Lleihau ail-drawmateiddio ar ôl cam-drin domestig:** Adroddodd rhai cyfranogwyr broblemau parhaus gyda dealltwriaeth ystyriol o drawma o gam-drin domestig yn ystod achos, gan dynnu sylw at effaith emosiynol andwyol y broses llys a mynychu'r llys arnynt hwy a'u plant. Roedd hyn yn cynnwys teimlo nad oedd gweithwyr proffesiynol yn eu credu, cael eu honiadau o gam-drin domestig wedi'u tanseilio a diffyg dealltwriaeth o'r trawma a brofwyd gan oroeswyr cam-drin domestig.

¹⁹ Roedd y dull Peilot Cynllun Braenaru yn cynnwys Swyddog Dilyniant Achos ymroddedig yn y tîm gweinyddu llys i ganolbwyntio ar gydlyn achos a darparu pwynt cyswllt a chefnogaeth i deuluoedd. Er bod rolau 'Swyddog Dilyniant Achos' wedi bodoli mewn llys teulu yn flaenorol, mae'r rôl yn y Cynllun Braenaru yn cynnwys cyfrifoldebau gwahanol ac felly yn cael ei hystyried yn rôl newydd wrth werthuso'r peilot (gweler Barlow et al., 2025)

- **Cyfranogiad plant:** Er bod gwelliannau clir yn y ffordd y siaradwyd â phlant o dan y Cynllun Braenaru, roedd cyfathrebu ynghylch sut ac a ystyriwyd eu barn yn amrywio. Nid oedd dymuniadau plant bob amser wedi'u hadlewyrchu yn y CIR nac yng nghanlyniadau achos, ac nid oedd y rhesymau am hyn wedi'u hegluro iddynt yn aml.
- **Gwaith amlasiantaethol:** Teimlai'r rhan fwyaf fod angen gwelliant mewn cydweithio amlasiantaethol o dan y Cynllun Braenaru. Roedd hyn yn arbennig o wir pan godwyd pryderon diogelu neu les, gyda rhieni'n awgrymu bod y materion hyn yn aml wedi'u tanseilio neu'u hanwybyddu gan y gweithwyr proffesiynol dan sylw.
- **Achosion sy'n dychwelyd ac adolygiad:** Prin iawn y gweithredwyd cam yr adolygiad, er bod cyfranogwyr yn aml wedi'u hysbysu y byddai eu hachos yn cael ei adolygu gan weithwyr proffesiynol. Gadawodd y diffyg dilyniant hwn lawer o rieni yn teimlo heb gefnogaeth ar ôl y broses llys, teimlad a oedd yn arbennig o gryf ymhlith goroeswyr cam-drin domestig.

6.2 Mewnwelediadau a Dysgu ar gyfer Gweithredu yn y Dyfodol

Gan dynnu ar fyfyrnodau a chynigion cyfranogwyr, nododd y tîm ymchwil ystyriaethau polisi, ymarfer ac ymchwil bellach allweddol. Mae'r mewnwelediadau hyn yn anelu at lywio gweithredu posibl Cynllun Braenaru mewn safleoedd peilot eraill a chefnogi gwelliant parhaus yn y safleoedd presennol. Mae rhai o'r canfyddiadau'n adleisio'r rhai yn y gwerthusiad proses (Barlow et al., 2025). Gall yr oblygiadau i bolisi ac ymarfer, yn seiliedig ar brofiadau'r rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon, gynnig cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer dysgu ehangach.

Model Cynllun Braenaru

- **Cadw'r ffocws ar y plentyn:** Sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed ac yn cael eu hystyried yn briodol yn ganolog i'r Cynllun Braenaru. Er bod y canfyddiadau'n awgrymu gwelliannau clir yn y ffordd y siaradwyd â phlant, dylid cadw arferion sy'n anelu at ddal 'llais y plentyn' dan adolygiad. Yn benodol, dylid ystyried amseriad, dull a lleoliad cyfarfodydd gyda phlant gyda FCAs Cafcass/Cafcass Cymru neu weithwyr cymdeithasol ar gyfer paratoi'r CIR. Mae canolbwyntio ar y plentyn yn gofyn nid yn unig am wrando ar lais y plentyn, ond hefyd am fonitro sut y caiff ei ddefnyddio mewn gwneud penderfyniadau. Os nad yw'n bosibl nac yn ddiogel gwneud penderfyniadau yn unol â

dymuniadau plentyn, dylid egluro hyn yn glir iddo. Mae angen cyfathrebu priodol a rheolaidd â phlant am y broses a'r penderfyniad terfynol. Er bod yr argymhelliad hwn yn adlewyrchu profiadau nifer fach o blant a gyfweliwyd ar gyfer yr ymchwil hon, mae'r canfyddiadau hefyd yn gyson ag astudiaeth debyg o blant yn profi prosesau Cynllun Braenaru yng Ngogledd Cymru (Jones, 2023).

- **Parhau i bwysleisio gwaith amlasiantaethol:** Roedd rhannu gwybodaeth yn gynnar ac yn gyson yn cael ei weld fel agwedd gadarnhaol ar fodel Cynllun Braenaru. Mae'n bwysig ystyried sut y gellir cynnal hyn, gyda'r CIR yn chwarae rôl allweddol. Dylai gweithredu yn y dyfodol a gwelliannau parhaus yn y safleoedd presennol hefyd ganolbwyntio ar gefnogi cyfranogiad awdurdodau lleol a gwella rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau, sy'n arbennig o bwysig mewn achosion sy'n cynnwys pryderon diogelu a lles.
- **Cydbwyso hyd y broses:** Mae'r model Cynllun Braenaru yn anelu at ddatblygu proses llys fwy effeithlon, gan leihau faint o amser y mae teuluoedd yn ei dreulio yn y llys, ac mae cynnydd wedi'i wneud yn y maes hwn. Awgrymodd rhieni a oedd hefyd wedi profi CAP fod y Cynllun Braenaru yn fwy effeithlon. Dylid cynnal yr ymrwymiad i'r nod hwn mewn unrhyw weithredu yn y dyfodol. Fodd bynnag, mae'n hanfodol cydbwyso'r effeithlonrwydd hwn â sicrhau bod teuluoedd yn cael cyfle i leisio eu barn yn y llys. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer mabwysiadu dulliau ymwybodol o drawma i oroeswyr cam-drin domestig.
- **Rhannu gwybodaeth am y broses gyda theuluoedd ar bob cam:** Gwerthfawrogodd plant a rhieni dderbyn gwybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl o bob cam o'r broses. Byddai cyfathrebu clir am benderfyniadau, cylch gwaith a rôl y llys teulu a'r hyn i'w ddisgwyl gan asiantaethau ar bob cam yn gwella profiad plant a theuluoedd o'r broses.
- **Ailystyried cam yr adolygiad:** Dylid ailasesu'r amcanion ar gyfer y cam hwn, gyda ffocws ar wella cyfathrebu â rhieni. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu y byddai rhieni, yn enwedig goroeswyr cam-drin domestig, yn croesawu'r cam hwn. Dylid ystyried a fyddai'n well fframio'r cam hwn fel 'gwiriad' neu 'dilyniant'. Mae angen canllawiau mwy manwl a chlr ar y cam hwn o'r model cyn unrhyw weithredu pellach, gan ymgorffori canfyddiadau o'r adroddiad gwerthusiad cyntaf ar y Cynllun Braenaru (Barlow et al., 2025).

Cam-drin Domestig

- **Parhau i bwysleisio lleihau ail-drawmateiddio i oroeswyr cam-drin domestig:** Mae Cynllun Braenaru yn anelu at leihau ail-drawmateiddio i oroeswyr cam-drin domestig, ac mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod angen gwelliannau pellach. Mae meysydd allweddol i'w gwella yn cynnwys sicrhau bod honiadau o gam-drin domestig yn cael eu hymchwilio a'u dogfennu yn y CIR, bod gweithwyr proffesiynol yn delio gyda thrafodaethau am gam-drin domestig yn sensitif, ac y dylid cynnig asesiadau risg DASH yn gyson. Argymhellir gweithredu hyfforddiant ar y cyd ar draws pob asiantaeth, gan gynnwys barnwyr. Dylai'r hyfforddiant hwn ganolbwyntio ar ddulliau ystyriol o drawma a rhywedd-ymatebol i gam-drin domestig i gefnogi cyflawni nodau'r Cynllun Braenaru yn llwyddiannus. Dylai'r hyfforddiant hwn gwmpasu deinameg cam-drin domestig, meithrin dealltwriaeth gyffredin o gysyniadau allweddol fel rheolaeth ormesol, sicrhau dulliau cyson o gyfweld a chefnogi plant, a darparu canllawiau ar gyfathrebu gyda phlant ac oedolion am brosesau gwneud penderfyniadau yn eu hachos.
- **Gweithredu mesurau arbennig:** Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod mesurau arbennig wedi'u cynnig yn aml mewn achosion Cynllun Braenaru, ond nad oeddent bob amser wedi'u gweithredu fel yr addawyd. I wneud y gorau o'u budd i oroeswyr cam-drin domestig, dylai gweithredu yn y dyfodol sicrhau bod y mesurau hyn yn cael eu hystyried yn gyson a'u darparu yn lle gwrandawiadau pan ofynnir amdanynt.
- **Pwysigrwydd gwasanaethau cam-drin domestig:** Cydnabuwyd gwasanaethau cam-drin domestig fel rhan annatod o'r Cynllun Braenaru. Fodd bynnag, nid oedd rhai cyfranogwyr wedi'u hatgyfeirio at y gwasanaethau hyn, ac roedd y rhai a gafodd eu hatgyfeirio weithiau heb eu cefnogi yn y llys oherwydd cyfyngiadau capasiti, staffio ac adnoddau. Dylai gweithredu'r Cynllun Braenaru yn y dyfodol sicrhau cynnwys gwasanaethau cam-drin domestig, atgyfeiriadau priodol, a digon o adnoddau a staffio.

- **Parhau i bwysleisio rheoli gwrth-honiadau:** Nododd cyfranogwyr fod dealltwriaeth a delio gyda gwrth-honiadau o gam-drin domestig gan weithwyr proffesiynol wedi gwella o dan y Cynllun Braenaru. Fodd bynnag, roedd rhai heriau'n parhau. Dylai gweithredu yn y dyfodol a safleoedd peilot presennol ystyried hyfforddiant ychwanegol ar reoli gwrth-honiadau, gan gynnwys hyfforddiant penodol i helpu gweithwyr proffesiynol i gyfathrebu gyda phlant am honiadau o ymddygiadau dieithrio, gwrthdaro, neu orfodaeth.

Cyfeiriadau

- Barlow, C., Richardson Foster, H., Scollay, C., Barter, C., Stanley, N., Miskowiec, A, Carruthers, W., Morris, V. & Carter, S. (2025). *Private Law Pathfinder Pilot: Process evaluation and financial analysis*. Ministry of Justice Report, <https://www.gov.uk/government/publications/private-law-pathfinder-pilot-process-evaluation-and-financial-analysis>
- Barnett, A. (2014). Contact at all costs? Domestic violence and children's welfare. *Child & Family Law Quarterly*, 26(4), 439–462. <https://bura.brunel.ac.uk/bitstream/2438/10241/6/FullText.pdf>
- Barnett, A. (2020). A genealogy of hostility: Parental alienation in England and Wales. *Journal of Social Welfare and Family Law*, 42(1), 18–29. <https://doi.org/10.1080/09649069.2019.1701921>
- Beckett, H., Warrington, C. & Soares, C. (2022). *Navigating complexity, risk and benefit in 'sensitive' research with children: Ethical Research Involving Children*. Child Ethics. <https://childethics.com/blog/navigating-complexity-risk-and-benefit-in-sensitive-research-with-children/> (accessed 05/06/2025)
- Braun, V., & Clarke, V. (2020). One size fits all? What counts as quality practice in (reflexive) thematic analysis? *Qualitative Research in Psychology*, 18(3), 328–352. <https://doi.org/10.1080/14780887.2020.1769238>
- Burton, M. (2021). What can go wrong in child arrangement proceedings where there are allegations of domestic abuse? *Journal of Social Welfare and Family Law*, 43(4), 471–474. <https://doi.org/10.1080/09649069.2021.1999109>
- Burton, M., & Hunter, R. (2023). Reforming the approach of the family courts in child arrangements cases involving allegations of domestic abuse. *Edward Elgar Publishing EBooks*, 139–154. <https://doi.org/10.4337/9781800881402.00018>
- Choudhry, S., & Rodriguez Gutierrez, D. (2024). *The family justice response to domestic abuse: A six country empirical study of the experiences of survivors, judges, lawyers and court appointed experts*. University of Oxford. <https://www.law.ox.ac.uk/the-family-justice-response-to-domestic-abuse>

- Coy, M., Scott, E., Tweedale, R., & Perks, K. (2015). 'It's like going through the abuse again': domestic violence and women and children's (un)safety in private law contact proceedings. *Journal of Social Welfare and Family Law*, 37(1), 53–69.
<https://doi.org/10.1080/09649069.2015.1004863>.
- Clemente, M., Padilla-Racero, D. (2015). Are children susceptible to manipulation? The best interest of the child and their testimony. *Children and Youth Services Review*, 51(415), 101-107 <https://doi.org/10.1016/j.childyouth.2015.02.003>
- Dalgarno, E., Ayeb-Karlsson, S., Bramwell, D., Barnett, A., & Verma, A. (2024). Health-related experiences of family court and domestic abuse in England: A looming public health crisis. *Journal of Family Trauma, Child Custody and Child Development*.
<https://doi.org/10.1080/26904586.2024.2307609>
- Comisiynydd Cam-drin Domestig. (2023). *The Family Court and domestic abuse: achieving cultural change*. https://domesticabusecommissioner.uk/wp-content/uploads/2023/10/DAC_Family-Court-Report_Oct-2023.pdf (viewed on 29/1/2025)
- Cyngor Cyfiawnder Teuluol. (2024). *Family Justice Council guidance on responding to a child's unexplained reluctance, resistance or refusal to spend time with a parent and allegations of alienating behaviour*. <https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2024/12/Family-Justice-Council-Guidance-on-responding-to-allegations-of-alienating-behaviour-2024-1-1.pdf>
- Grey, R. (2024). Being made visible: Responding to complex needs created by child removal in the Family Court. *Journal of Social Welfare and Family Law*, 1–16.
<https://doi.org/10.1080/09649069.2024.2414624>
- Hargreaves, C., Cusworth, L., Alrouh, B., Broadhurst, K., Cowley, L., Abouelenin, M., & North, L. (2022). *Uncovering private family law: What can the data tell us about children's participation?* <https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-what-can-the-data-tell-us-about-childrens-participation>
- Hunter, R., Burton, M., & Trinder, L. (2020, June 25). *Assessing risk of harm to children and parents in private law children cases: Final report*. Ministry of Justice.

<https://www.gov.uk/government/consultations/assessing-risk-of-harm-to-children-and-parents-in-private-law-children-cases>

Jones, R. (2023). *Profiadau plant a phobl ifanc o gymryd rhan mewn achosion preifat yn y llysoedd teulu*. (Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 114/2023). Llywodraeth Cymru.

[Profiadau plant a phobl ifanc o gymryd rhan mewn gweithrediadau preifat yn y llysoedd teulu](#)

(viewed 12/12/2024)

Macdonald, G. S. (2016). Domestic violence and private family court proceedings: Promoting child welfare or promoting contact? *Violence Against Women*, 22(7), 832–852.

<https://doi.org/10.1177/1077801215612600>

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2025). *Family Court Statistics Quarterly: October to December 2024* <https://www.gov.uk/government/statistics/family-court-statistics-quarterly-october-to-december-2024/family-court-statistics-quarterly-october-to-december-2024#children-act---private-law> (mynediad 05/06/2024)

Orr, C., Fisher, C., Bell, M., O'Donnell, M., Martin, K., Glauert, R., & Preen, D. (2023). Exposure to family and domestic violence is associated with lower attendance and higher suspension in school children. *Child Abuse & Neglect*, 142, 105594.
<https://doi.org/10.1016/j.chiabu.2022.105594>

Powell, M. A., McArthur, M., Chalmers, J., Graham, A., Moore, T., Spriggs, M., & Taplin, S. (2018). Sensitive topics in social research involving children. *International Journal of Social Research Methodology*, 21(6), 647-660.

Roe, A. (2021). *Children's Experience of Private Law Proceedings: Six key messages from research*. Spotlight series. London: Nuffield Family Justice Observatory
<https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/childrens-experience-of-private-law-proceedings-six-key-messages-from-research>

Singer, E., & Ye, C. (2013). The use and effects of incentives in surveys. *The ANNALS of the American Academy of Political and Social Science*, 645(1), 112-141.
<https://doi.org/10.1177/0002716212458082>

Women's Aid. (2020). *Research Integrity Framework*. [Research-Integrity-Framework-RIF-on-Domestic-Violence-and-Abuse-DVA-November-2020.pdf](#) (accessed 05/06/2025)

Atodiad A

Geirfa

Acronym/Term	Diffiniad
ASD	Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth
Cafcass	Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd
Cafcass Cymru	Yn darparu'r un gwasanaeth â Cafcass mewn perthynas â phlant sy'n byw yng Nghymru
CAP	Rhaglen Trefniadau Plant
CIR	Adroddiad Effaith ar Blentyn
CJI	Y Ganolfan Arloesi ym Maes Cyfiawnder
CPO	Swyddog Hwyluso Achos
DASH	Asesiad Cam-drin Domestig, Stelcio, Aflonyddu a Thrais Seiliedig ar Anrhydedd
Gorchymyn Gorfodi	Os yw rhiant/person â chyfrifoldeb rhiant wedi methu â chydymffurfio â Gorchymyn Trefniadau Plant, gellir gwneud cais am Orchymyn Gorofodi.
IDVA	Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol
Ymgyfreithwyr Drostynt eu Hunain (LIP)	Unigolion sy'n mynychu'r llys heb gynrychiolaeth gyfreithiol
Cyfaill McKenzie	Unigolyn sy'n darparu cymorth moesol ac ymarferol i rywun sy'n rhan o achos llys sydd heb gyfreithiwr
MIAM	Cyfarfod Asesu a Gwybodaeth am Gyfryngu
MoJ	Y Weinyddiaeth Gyfiawnder
Cyfarwyddyd Ymarfer	Dogfen sy'n ategu rheolau'r llys gan nodi mwy o fanylion am yr ymarfer a'r weithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn mewn achosion llys – gan gynnwys achosion llys teulu, sifil a throseddol.
Adran 8	Mae Adran 8 o'r Ddeddf Plant 1989 yn nodi pwerau'r llys i wneud • gorchmynion trefniadau plant (yn delio â chwestiynau am bwy y dylai plentyn fyw gyda nhw a/neu pwy y dylai dreulio amser gyda nhw)

	• gorchmynion camau gwaharddedig (yn nodi na ellir cymryd camau penodol mewn perthynas â phlentyn, er enghraifft newid ei grefydd) • gorchmynion mater penodol (yn delio â chwestiwn penodol am blentyn, er enghraifft ble y dylai plentyn fynd i'r ysgol neu a ddylai gael triniaeth feddygol benodol)
Mesurau Arbennig	Darpariaethau i gynorthwyo partïon agored i niwed yn ystod achosion llys, megis sgriniau, mynedfeydd/allanfeydd ar wahân ac ardaloedd aros ar wahân, cyfranogiad drwy gyswllt fideo, neu gymorth gan gyfryngwr. Gweler 'Cyfarwyddiad Ymarfer 3AA – Personau Agored i Niwed: Cyfranogiad mewn Achosion a Thystiolaeth' – - https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/practice-direction-3aa-vulnerable-persons-participation-in-proceedings-and-giving-evidence https://www.gov.uk/government/publications/domestic-abuse-bill-2020-factsheets/special-measures-in-family-proceedings#what-are-special-measures
Dadansoddiad Thematig	Methodoleg sy'n cynnwys darllen trwy set ddata ansoddol i nodi patrymau a datgelu ystyr
Ymarfer sy'n Seiliedig ar Drawma	Dull sy'n cynnwys bod yn sensitif i'r trawma y gallai defnyddwyr gwasanaeth fod wedi'i brofi ac yn ceisio'n weithredol atal ail-drawmateiddio.

Atodiad B

Model Peilot Cynllun Braenaru

Disodlodd y Cynllun Braenaru y Rhaglen Trefniadau Plant (CAP) bresennol mewn dwy ardal llys teulu, un yn Lloegr ac un yng Nghymru, gyda model newydd. Roedd pryderon wedi'u codi am achosion CAP, gan fod y rhain yn faith, yn cynnwys sawl gwrandawriad, gyda chyfranogiad uniongyrchol cyfyngedig gan wasanaethau cam-drin domestig, a chyfranogiad lleiaf gan blant (Hunter et al., 2020; Roe et al., 2021). Sefydlwyd y peilotau Cynllun Braenaru yn Dorset ac yng Ngogledd Cymru. Mae'r broses model peilot newydd yn cynnwys tri cham:

1. *Casglu gwybodaeth ac asesu:* Cymerir dull sy'n canolbwyntio ar y plentyn i ymchwilio i effaith y materion a gyflwynir yn y cais ar bob parti, ac yn enwedig ar blant. Mae hyn yn cynnwys nodi a datrys materion brys ac, yn dibynnu ar natur yr achos, cyfeirio Cafcass/Cafcass Cymru neu awdurdodau lleol i baratoi Adroddiad Effaith ar Blentyn (CIR). I lunio'r adroddiad hwn, mae staff Cafcass/Cafcass Cymru neu'r awdurdod lleol yn ymgysylltu â phlant, partïon, ac asiantaethau eraill (fel bo'n briodol), gan grynhoi'r materion i'r llys. Gall cymorth ychwanegol i oroeswyr cam-drin domestig ar y cam hwn gynnwys cwblhau asesiad risg DASH a gwneud atgyfeiriadau i wasanaethau cam-drin domestig ac Ymgynghorwyr Cam-drin Domestig Annibynnol (IDVA), fel bo angen.
2. *Ymyriadau a/neu wrandawriad penderfyniadau:* Rhennir y CIR gyda'r llys, sy'n ei adolygu ac yn penderfynu sut y dylai'r cais fynd yn ei flaen. Mae'r achos yn parhau drwy'r system, gyda chmau posibl nesaf yn cynnwys ceisiadau am wybodaeth ychwanegol (megis dogfennau ac adroddiadau neu wrandawriadau canfod ffeithiau), argymhellion ar gyfer datrysiadau y tu allan i'r llys, neu orchmynion ar gyfer ymyriadau teuluol (megis gorchmynion dros dro neu gyswllt goruchwylledig). Unwaith y bydd gan y llys yr holl wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad, gwneir gorchymyn terfynol yn unol â budd gorau'r plentyn.
3. *Cam Adolygu:*²⁰ Mae hyn yn digwydd rhwng tri a deuddeg mis ar ôl i'r gorchymyn terfynol

²⁰ Roedd y model peilot yn cynnwys y cam hwn, fodd bynnag, gyda chytundeb asiantaethau gweithredol, cafodd y cam adolygu ei ddileu o'r Cyfarwyddyd Ymarfer ym mis Rhagfyr 2024. Mae gwaith yn parhau i archwilio

gael ei wneud. Cysylltir â'r partïon i asesu sut mae'r gorchymyn yn gweithio iddynt. Bwriad y dilyniant yw deall effeithiolrwydd y gorchymyn, yn hytrach na monitro cydymffurfiaeth â gorchmynion llys neu fynd i'r afael â chwynion am y broses llys.

Am drosolwg manwl o'r broses o'r dechrau i'r diwedd, gweler Barlow et al., (2025).

dulliau amgen o gefnogi teuluoedd yn dilyn gorchymyn terfynol. [Diweddariad darparu Cyfraith Breifat - GOV.UK](#)

Atodiad C: Atodiad Technegol

Ystyriaethau Moesegol

Derbyniwyd cymeradwyaeth moeseg sefydliadol gan Bwyllgor Moeseg, Prifysgol Canol Swydd Gaerhirfryn. Derbyniwyd cymeradwyaeth i gynnal yr ymchwil hefyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ), Cafcass/Cafcass Cymru a Llywydd yr Adran Deulu.

Caniatâd a gwirfoddoldeb cyfranogwyr

Derbyniodd cyfranogwyr posibl daflenni gwybodaeth yn egluro bod cymryd rhan yn y gwerthusiad yn wirfoddol. Cafodd hyn ei ailgadarnhau ar ddiwrnod y cyfweiliad, gyda'r cyfwelydd yn cadarnhau nad oedd rhwymedigaeth ar gyfranogwyr i ateb unrhyw gwestiynau oedd yn well ganddynt beidio eu hateb a gallent ddod a'r cyfweiliad i ben ar unrhyw adeg heb roi rheswm. Rhoddodd pob cyfranogwr ganiatâd ar lafar neu yn ysgrifenedig cyn y cyfweiliad. Cawsant hefyd y dewis i newid neu dynnu data eu cyfweiliad yn ôl unrhyw adeg yn ystod neu hyd at wythnos ar ôl y cyfweiliad drwy gysylltu gyda'r tîm ymchwil.

Potensial ar gyfer niwed a dull sy'n adnabod trawma

Mabwysiadodd y prosiect hwn ddull sy'n adnabod trawma ble roedd diogelwch a lles cyfranogwyr yn ganolog. Roedd y dull hwn yn helpu'r tîm ymchwil i ddeall cymhlethdodau bywydau cyfranogwyr ac yn darparu pwynt cyfeirio ar gyfer dechrau mynd i'r afael â'r rhain (Beckett et al., 2022; Powell et al., 2018). Roedd enghreifftiau o sut oedd dull sy'n adnabod trawma yn cael ei fabwysiadu yn cynnwys (Beckett et al., 2022):

- Cydnabod presenoldeb posibl trawma ym mywydau cyfranogwyr ac effaith hyn ar ymgysylltu gydag ymchwilwyr. Gall trawma achosi i gyfranogwyr ei chael hi'n anodd cofio prosesau neu batrwm digwyddiadau, neu ddarparu cyfrif sy'n gwrthdaro yn ystod cyfweiliadau. Pan ddigwyddodd hyn, adlewyrchwyd arno, ond ni archwiliwyd gyda chyfranogwyr i leihau gofid posibl.
- Mabwysiadu dull lleihau risg ar gyfer ymchwil. Roedd hyn yn golygu nad oedd cyfranogwyr wedi eu heithrio yn seiliedig ar risg a nodwyd. Yn hytrach, roedd ymchwilwyr yn ystyried sut i leihau'r risgiau hyn a pha gefnogaeth y gellir ei chynnig i leihau'r gofid. Roedd hyn yn cynnwys ymgysylltu gydag asiantaethau cymorth o

ddechrau'r prosiect a sicrhau bod cefnogaeth ar gael o'r dechrau i'r diwedd fel bo'r angen.

- Cydnabod y gall gofid a theimladau anghyfforddus godi yn ystod cyfweiliadau. Cafodd cyfranogwyr eu hysbysu yn y taflenni gwybodaeth er bod yr astudiaeth yn canolbwyntio ar achosion llys, gall gyffwrdd ar gam-drin domestig a risgiau o niwed arall hefyd, a all o bosibl arwain at ofid neu straen emosiynol neu seicolegol. Roedd ymchwilydd yn rhoi sylw i arwyddion o ofid, a phan oedd y rhain yn digwydd, yn gwneud penderfyniadau 'gyda'r' cyfranogwyr yn hytrach nag 'i'r' cyfranogwyr o ran sut i fwrw ymlaen. Cafodd cyfranogwyr ddewis oedi neu i ddod a'r cyfweiliad i ben ar unwaith os oedd arwyddion o ofid. Dewisodd pob cyfranogwr i barhau gyda'r cyfweiliad ac atgoffwyd nhw o'r gefnogaeth oedd ar gael gan yr ymchwilydd. Rhoddodd partner y prosiect, y Ganolfan Arloesi ym Maes Cyfiawnder hefyd y dewis i'r sawl oedd yn cael eu cyfweld i dderbyn cefnogaeth gan seicolegydd clinigol.
- Cafodd effaith y testunau hyn ar y tîm ymchwil hefyd ei gydnabod. Cynigiwyd cefnogaeth yn ystod gwaith maes drwy ddad-briffio tîm. Cafodd ymchwilydd hefyd y dewis o dderbyn cefnogaeth gan seicolegydd clinigol y CJI.
- Darparodd y tîm ymchwil ddewisiadau i gyfranogwyr ynglŷn â sut a ble byddai'r cyfweiliadau'n cael eu cynnal. Er bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr wedi dewis cyfweiliad ar-lein, roedd yn well gan rai gyfarfod yn bersonol. Roedd cyfweiliadau personol yn cael eu cynnal yn gyffredinol mewn gwasanaethau cam-drin, mewn lleoliad cyhoeddus priodol fel ystafell breifat mewn llyfrgelloedd lleol neu yng nghartref y cyfranogwr ble ystyriwyd ei bod yn ddiogel i wneud hynny.
- Roedd y tîm ymchwil yn gweld cyfranogwyr fel arbenigwyr yn eu profiadau eu hunain ac yn cynnwys cyfleoedd iddynt rannu unrhyw beth pwysig iddyn nhw yn ystod cyfarfodydd ymchwil. Cafodd cyfranogwyr y cyfle i rannu unrhyw wybodaeth y gallai'r tîm ymchwil fod wedi'i fethu oedd yn bwysig iddynt.
- Cafodd Protocol Digwyddiad Niweidiol Difrifol ac Ymchwil Moesegol ei sefydlu i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon am ddiogelwch, neu risg i gyfranogwyr; fodd bynnag, nid oedd yna unrhyw sefyllfaoedd ble roedd angen gweithredu hyn. Cafodd pob cyfranogwr eu

dibriffio ar ddiwedd eu cyfweiliad a'u cyfeirio i rifau llinell gymorth a gwefannau perthnasol am gefnogaeth ychwanegol.

Cymhellion

Cafodd y cyfranogwyr i gyd gydnabyddiaeth ariannol am gyfrannu at yr astudiaeth ymchwil. Yn ôl Fframwaith Uniondeb Ymchwil Cymorth i Fenywod (2020), dylai cyfranogwyr dderbyn cydnabyddiaeth ariannol rhesymol am eu hamser ac anghyfleustra. Mae hyn yn arfer safonol o fewn ymchwil meintiol o'r natur hwn. Yn ogystal, mae cymhelliant wedi dangos cynnydd mewn lefelau cyfranogiad a brwdfrydedd ac ymgysylltiad cyffredinol gyda phrosiectau ymchwil, gan bod cyfranogwyr yn teimlo y gwerthfawrogi eu hamser gan ymchwilwyr (Singer & Ye, 2013). Ar ôl cysylltu gyda'r Grŵp Arbenigwyr Profiad Dioddefwr-Goroeswr y Ganolfan Gyswllt, cafodd pob cyfranogwr daleb siopa i ddiolch iddynt am eu cyfranogiad. Roedd gwerth y daleb yn gymesur i'w hoedran, gyda phlant iau yn derbyn taleb £10 a phlant hŷn ac oedolion yn derbyn £20. Hysbyswyd cyfranogwyr y gallent gadw eu taleb hyd yn oed os oeddent yn dewis gadael y cyfweiliad neu dynnu allan o'r astudiaeth.

Technegau ar gyfer cyfweld plant iau

Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda phlant iau yn defnyddio amrywiol dechnegau a gweithgareddau ystyriol o blant. Er enghraifft, gofynnwyd i blant osod ei hunain ar hyd strbyn o rhuban neu llyn gyda 'Na' ar un pen ac 'Ia' ar y pen arall, gan ganiatáu iddynt fynegi eu bod yn cytuno neu'n anghytuno gyda datganiadau am eu cyfranogiad yn y broses llys teulu. Defnyddiwyd gemau cardiau i benderfynu beth oeddent yn ei hoffi neu ddim yn ei hoffi am ryngweithio gyda phartïon gwahanol yn ystod y broses hon. Yn olaf, archwiliwyd eu teimladau cyn, yn ystod ac ar ôl y broses yn defnyddio'r pecyn 'Bear Cards' a grëwyd gan John Veeken.

Cyfrinachedd ac anhysbysrwydd

Hysbyswyd cyfranogwyr y byddai eu hatebion yn parhau'n gyfrinachol oni bai bod yna bryder bod plentyn neu oedolyn mewn perygl o gael niwed. Roedd pob cyfweiliad yn ddienw wythnos ar ôl iddynt gael eu cynnal, gyda phob trawsgrifiad yn cynnwys nodwr lefel grŵp a lleoliad i'w defnyddio mewn dyfyniadau eglurhaol.

Atodiad D

Nodweddion Cyfranogwyr

Roedd y sampl olaf o rieni yn cynnwys 39 unigolyn ar draws y ddau safle (gweler Tabl 1). Roedd cyfartaledd oedran cyfranogwyr yn 40.7 ac yn tueddu i fod yn fenywaidd (66.7%) a Gwyn Prydeinig neu Gwyn Cymreig (82.1%). Roedd tua chwarter wedi adrodd eu bod wedi bod drwy'r broses CAP blaenorol a'r broses cynllun Braenaru newydd (25.6%).

Tabl 1: Nifer o rieni gafodd eu cyfweld ar draws y ddau safle

Safle	Mamau	Tadau	Teidiau a Neiniau	Cyfanswm
Dorset	6	2	0	8
Gogledd Cymru	19	11	1	31
Cyfanswm	25	13	1	39

Roedd y sampl terfynol o blant yn cynnwys naw o blant (chwech oed a hŷn) ar draws y ddau safle peilot (gweler Tabl 2). Roedd cyfartaledd oedran cyfranogwyr yn 12.4 ac yn tueddu i fod yn fenywaidd (66.7%) a Gwyn Prydeinig neu Gwyn Cymreig (66.6%).

Tabl 2: Nifer o blant gafodd eu cyfweld ar draws y ddau safle

Safle	Plant Ifanc (6-11)	Plant Hŷn (12+)	Cyfanswm
Dorset	2	0	2
Gogledd Cymru	1	6	7
Cyfanswm	3	6	9

Dangosir nodweddion y sampl (gan gynnwys profiad CAP) yn Nhabl 3.

Tabl 3: Nodweddion a adroddwyd arnynt gan gyfranogwyr yn y sampl

Ffactor	% o Blant a Rhieni (N=48)	% o Rieni (N=39)
Profiad CAP blaenorol		
Oes	25.6%	
Nac oes	74.4%	
Asiantaeth Arweiniol		
Cafcass/Cafcass Cymru	81.2%	
Cafcass/Cafcass Cymru ac awdurdod lleol	6.3%	
Awdurdod lleol	12.5%	
Pryderon diogelu neu les*		
Oes	52.1%	
Nac oes	47.9%	
Cam-drin domestig*		
Oes	71%	
Nac oes	29%	
Ymddygiad dieithrio *		
Oes	16.6%	
Nac oes	83.4%	
Canlyniadau achos cynllun Braenaru		
Plentyn yn byw gyda rhiant trwy'r amser neu'r rhan fwyaf o'r amser		51%
Plentyn yn byw gyda rhiant hanner yr amser		21%
Plentyn yn byw gyda rhiant llai o amser neu dim o gwbl		28%
Amser rhwng penderfyniad terfynol a'r cyfweiliad		
3-6 mis		13%
7-12 mis		36%
13-18 mis		31%
19-24 mis		10%
Dros 2 flynedd		10%

*Yn seiliedig ar ymatebion cyfranogwyr sy'n oedolion a dosbarthwyd gan y tîm ymchwil.